



Niwmonitis hypersensitifedd neu alfeolitis alergaidd gynt

Mae'r cyflwr hwn yn digwydd pan fydd eich ysgyfaint yn datblygu ymateb heintrydd – hypersensitifedd – i rywbeth rydych chi'n ei anadlu sy'n achosi llid ym meinwe'r ysgyfaint – niwmonitis.

Mae ysgyfaint ffarmwr yn un enghraifft. Mae hyn yn cael ei achosi drwy anadlu mowld sy'n tyfu ar wair, graen a gwellt. Mae ysgyfaint colomennwr yn enghraifft arall, sy'n cael ei achosi drwy anadlu gronynnau o blu neu garthion adar. Mae llawer o sylweddau eraill all achosi patrymau tebyg. Gall fod yn anodd iawn dod o hyd i'r union achos.

Symptomau

Gallwch gael symptomau yn sydyn ar ôl dod i gysylltiad – peswch, colli anadl, gwres a phoen yn y cymalau. Dyma ffurf aciwt y cyflwr. Mi wnaiff ddiflannu heb arwain at ffbrosis yr ysgyfaint os allwch chi osgoi'r sylwedd achosodd hyn am byth.

Mewn achosion eraill, efallai'n raddol, dros lawer o flynyddoedd, y cewch chi symptomau diffyg anadl a pheswch, o ganlyniad i greithio ar yr ysgyfaint. Niwmonitis hypersensitifedd cronig, neu hirdymor, yw'r enw ar y ffurf hon ar y cyflwr. Yn aml, ni allwn ddod o hyd i achos penodol iddo.

Triniaeth

Os gwelir bod achos penodol, mae'n bwysig iawn osgoi dod i gysylltiad â hwnnw yn gyfan gwbl.

Efallai bydd angen i chi gymryd meddyginiaeth gwrth-lid o'r enw steroidau am rai wythnosau neu fisoedd.

Os bydd arnoch angen steroidau i reoli'r cyflwr am amser hwy, gall eich meddyg argymhell cyffuriau eraill i leihau'r risg o sgil effeithiau o gymryd steroidau.

Gwybodaeth bellach

Mae niwmonitis hypersensitifedd yn fath o ffbrosis yr ysgyfaint. Gallwch chi ddarganfod mwy o wybodaeth am ffbrosis yr ysgyfaint yn y lawrlwythiadau canlynol:

- *Ffbrosis yr ysgyfaint – Beth yw hi a sut mae'n effeithio ar eich anadlu*
- *Ffbrosis yr ysgyfaint – Gwneud diagnosis a phroffion*
- *Ffbrosis yr ysgyfaint – triniaeth a chefnogaet*

“Efallai na fyddai byth yn gwybod beth sy’n achosi fy nghyflwr”

Cafodd Jane, 61, ddiagnosis o niwmonitis hypersensitifedd 10 mlynedd yn ôl

“Pan symudais i Lundain, dechreuais besychu. Mi aeth gynddrwg nes bu raid i mi fynd i’r ysbyty, a chefais wybod fod gen i niwmonitis hypersensitifedd. Cymerais ddos uchel o steroidau – a diflannodd fy symptomau! Ni chefais symptomau o gwbl am saith mlynedd.

Ond pan ddaeth y symptomau yn ôl, ni wnaethant ddiflannu. Mae fy nghyflwr yn un hirdymor rŵan. Dangosodd y profion fod gen i hypersensitifedd i garthion colomennod a bwjis, ond mae’r meddyg yn dweud y gallwn i fod yn ymateb i filoedd o bethau eraill. Efallai na fyddai byth yn gwybod beth sy’n achosi fy nghyflwr.

Rydw i’n cael pyliau annymunol o besychu. Ac mae pethau bach yn fy mlino – fel cario’r siopa adref.

A minnau’n gyfreithwraig, teimlais fod fy ngwaith yn mynd yn drech na fi. Awgrymodd fy nghyflogwyr i mi hawlio ar eu polisi yswiriant iechyd parhaol. Derbyniwyd fy nghais a rydw i bellach ar absenoldeb salwch hirdymor.

Rydw i’n cymryd steroidau a chyffuriau gwrthimiwnedd pob diwrnod. Mae’n debyg y byddaf yn cymryd cyffuriau am weddill fy mywyd.”

Cysylltwch â ni er mwyn darganfod cymorth yn agos i chi.

Llinell gymorth: 03000 030 555

Dydd Llun i ddydd Gwener, 9yb-5yh

Ni fydd galw ein llinell gymorth fyth yn costio mwy na galwad lleol ac mae’r galwad fel arfer yn rhad ac am ddim, hyd yn oed ar ffôn symudol.

helpline@blf.org.uk

blf.org.uk

British Lung Foundation
73-75 Goswell Road
London EC1V 7ER

Elusen gofrestredig yng Nghymru
a Lloegr (326730), yr Alban (038415)
ac Ynys Manaw (1177)

Cod: BK9

Fersiwn: 3

Adolygiad diwethaf: Medi 2016

Adolygiad nesaf: Medi 2019

Rydym ni’n gwerthfawrogi adborth ar ein gwybodaeth. Er mwyn mynegi eich barn, ac am y fersiwn diweddaraf o’r wybodaeth hon a chyfeirnodau, galwch y llinell gymorth neu ymwelwch â **blf.org.uk**

